## GORCHYMYN FFORDD FYNEDIAD GWAITH DUR YR A4810 (QUEEN'S WAY), (LLAN-WERN, CASNEWYDD) (CLIRFFORDD) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1), (2) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd creu clirffordd ar y darn o'r ffordd fynediad fel y'i pennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Dros Dro a Chlirffordd) 2024 yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 9 Ebrill 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y planiau, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR ac yn Siop Un Stop Cil-y-coed, Woodstock Way, Cil-y-coed NP26 5DB neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2412128.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 30 Ebrill 2026, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2412128.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

## THE A4810 STEELWORKS ACCESS ROAD (QUEEN'S WAY) (LLANWERN, NEWPORT) (CLEARWAY) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order under sections 1(1), 2(1), (2) and 124(3)(b) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to create a clearway on the length of the access road as specified in the Schedule to this Notice.

The A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), (Llanwern, Newport) (Temporary Speed Limits and Clearway) Order 2024 will be revoked by the proposed Order.

During a period of 21 days from 9 April 2026, a copy of the proposed Order, plans, Statement of Reasons for making the Order and the Order being revoked may be inspected free of charge, during normal opening hours at Newport City Council, Civic Offices, Newport, NP20 4UR and Caldicot One Stop Shop, Woodstock Way, Caldicot, NP26 5DB or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA2412128.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 30 April 2026, quoting reference number qA2412128.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*C Wynn*

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**Darn o Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), Llan-wern, Casnewydd**

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad tua'r dwyrain a thua'r gorllewin sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol cylchfan Cloc Mecanyddol Casnewydd hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row, sef cyfanswm pellter o 5 cilometr.

*C Wynn*

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

**Length of the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), Llanwern, Newport**

That length of the eastbound and westbound access road that commences from the eastern side of the Newport Mechanical Clock roundabout to a point 50 metres west of the North Row Junction, a total distance of 5 kilometres.